Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll
a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen
Nos Fawrth 11eg o Ebrill am 7:30 y.h

Yn Bresennol

Cynghorwyr – Olwen Roberts (OR), Lisbeth James (LJ) Sianelen Pleming(SP), John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), Emlyn Hughes (EH) Gwyn D Roberts (GR), William Jones (WJ) a'r Cyng. Aled Jones (AJ).

1. **Ymddiheuriadau –** Emlyn Hughes

2. **Hysbysebiadau y Cadeirydd –** Croesawyd pawb a oedd yn bresennol gan y Cadeirydd. Cyflwynwyd llythyr yn cadarnhau ymddeoliad Gwyn D Roberts fel Aelod tros Ward Llithfaen. Roedd am ddiolch am y caredigrwydd a'r parch a dderbyniodd tros y deugain mlynedd y bu'n Aelod o'r Cyngor. Diolchodd y Cadeirydd iddo am ei wasanaeth gwerthfawr ac ategwyd hynny yn unfrydol ynghyd â chydnabod ei ddoethineb pob amser.

3. **Datgan Diddordeb –** Dim

4. **Cofnodion**

4.1 Cynigodd Sianelen Pleming fod cofnodion y 14eg o Fawrth, 2017 yn gywir. Eiliodd Lisbeth James .

4.2 **Materion yn codi** –

4.2.1 **Dŵr yr Eifl –** Ar y 23 Mawrth nododd Uwch Swyddog Hawliau Tramwy y Cyngor Sir ei fod am geisio trafod y mater efo swyddog draenio yr wythnos ddilynnol i weld os oes potensial iddyn nhw gymryd yr achos i fyny. *Y Clerc i holi am y cynnydd ddechrau mis Mai.*

4.2.2 **Gor-yrru yn Llithfaen –** Derbynwyd llythyr gan aelod o'r cyhoedd yn datgan pryder am y gor-yrru sy'n parhau ynghyd â'r diffyg cynnydd mewn gwneud rhywbeth amdano. *Y Clerc i gydnabod a darparu ymateb llawn ar ôl cyflwyniad PC Geraint Williams yng nghyfarfod y 9 Mai.*
Mae Go SAFE wedi cadarnhau eu bod wedi archebu arolwg cyflymdra yn seiliedig ar y ffigyrau uchel a ddeilliodd o fonitro PC Geraint Williams. *Y Clerc i dderbyn cynnig PC Geraint Williams i gyflwyno adroddiad cynnydd ac esbonio'r gwahanol gamau yng nhyfarfod y 9 Mai.*

4.2.3 **Wal derfyn gerrig sych ar ochr y ffordd i Nant Gwrtheyrn** – Ar y 27 o Fawrth cadarnhaodd Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeisdrefol y Cyngor Sir fod y wal mewn golwg wedi cael ei harchwilio'n ddiweddar ac mae ei chyflwr cyffredinol yn parhau o fewn goddefiad risg. Nid oes cyfiawnhad ar hyn o bryd i'r Cyngor Sir weithredu ymhellach. Gan ei fod yn derfyn preifat nid yw'n gyfrifoldeb yr Awdurdod Ffyrdd i'w chynnal a'i chadw. Nid yw'n bosibl i'r Cyngor Sir gymryd cyfrifoldeb dewisol ymlaen i dderbyn cost cynnal unrhyw derfyn preifat. Nodwyd eu bod wedi trafod y mater hefo'r Gwasanaeth AHNE a ddywedodd fod hon yn wal garreg hanesyddol o fewn ardal ddynodedig. *Y Clerc i yrru llythyr i berchennog y tir yn nodi fod cwynion i law ynglyn â chyflwr/diogelwch y wal a gofyn os y byddai ganddo ddiddordeb mewn siarad hefo cynrychiolydd o AHNE gan fod posibl y gallai ymgeisio am grant tuag at gostau ei hatgyweirio.*

4.2.4 **Canolfan Llithfaen** – Sefydlwyd nad oes asbestos yn y Ganolfan. Gyda'r arolwg o'r to i law mae Pwyllgor y Ganolfan yn ystyried y ffordd ymlaen. Y *Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i holi pryd y bydd y briff drafft ar gyfer y prydlesi newydd ar gael i'w hystyried.*

4.2.5 **Ymgynghoriad ynglyn a chwtogi ciosgau BT** – Nid oes gan y Cyngor Cymuned wrthwynebiad i BT gael gwared o giosgau Llithfaen a Phistyll. Gan i neb droi i fyny i'r cyfarfod cyhoeddus a alwyd i weld os oedd diddordeb mewn mabwysiadu ciosg Llithfaen nid oes gan y Cyngor diddordeb mewn mabwysiadu ciosg ychwaith. *Y Clerc i ymateb i'r ymholiad ar y sail yma.*

4.2.6 **Mynwent Pistyll –** Nododd y Clerc fod Yswirwyr y Cyngor wedi cadarnhau fod angen pris gan arbenigwr ar gyfer yswirio wal Mynwent Pistyll. Gofynwyd i WJ am ei arweiniad ac argymhellodd bris o £30 y medr. Cytunodd pawb a'r swm yma. *GW a'r Clerc i fersur hyd y wal*

5. **Gwefan a pholisiau cysylltiol y Cyngor** – Cyflwynodd y Clerc wefan ddrafft bresennol y Cyngor. Nodwyd mai ychydig iawn o waith fyddai cynnwys fersiwn Saesneg o bopeth o dan y tecst Cymraeg. Adroddwyd fod y person a'i crëodd o'r farn na fyddai creu tudalennau arwahan i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ymarferol iawn. *Gofynwyd i'r Clerc ei hysbysu mai tudalennau arwahan i'r Gymraeg a'r saesneg fyddai'n ddelfrydol.*
Trafodwyd nifer o opsiynau o ran polisi iaith ar gyfer y Cyngor a *gofynwyd i'r Clerc gyfuno y Polisiau esiampl* fel y gellir golygu'r cyfuniad i ateb gofynion Pistyll.*
**Llanystumdwy/ Llandderfel a Llanllyfni.*

6. **Ceisiadau Cynllunio** – Dim

7. **Materion lleol eraill a gyflwynwyd o flaen llaw** –

7.1 **Palmant gyferbyn a ffens Cae Chwarae Llithfaen -** Mae Pwyllgor Cae Chwarae Llithfaen yn bryderus ynglyn a'r arfer presennol i'r plant godi'r ffens sy'n amgylchyny'r Cae a rhedeg i'r ffordd. Bwriad y Pwyllgor yw buddsoddi mewn ffens newydd ac maent yn gofyn i'r Cygor Cymuned rannu eu pryderon â Chyngor Gwynedd trwy ofyn iddynt fuddsoddi mewn palmant i roi gyferbyn a'r ffens. Byddai'r Pwyllgor yn fwy na bodlon rhoi'r tir yn ddi-dal er mwyn sicrhau diogelwch plant y pentref.
Y Clerc i drefnu i'r person priodol o'r Adran Priffyrdd ym Mhwllheli i gyfarfod gyda'r Cyng GJ, cynrychiolydd o Bwyllgor y Cae Chwarae a'r Cynghorydd Sir i ystyried y ffordd fwyaf effeithiol ymlaen.

7.2 **Gweithgaredd yn y Nant -** Cynhaliwyd gweithgaredd yn ymwneud â beiciau yn Nant Gwrtheyrn penwythnos y 1-2 Ebrill. Roedd llawer o gwyno fod y llwybr cyhoeddus lawr i'r nant (sef y gamffordd) wedi cael ei chau a bod y cyhoedd yn gorfod talu £5.00 i fynd i lawr. Nid oedd neb o'r pentref yn ymwybodol fod hyn yn mynd ymlaen.
Yn ogystal derbynwyd neges e-bost yn nodi fod maes parcio Nant Gwrtheyrn yn orlawn ynghyd â'r tir comin ger bron. Gofynwyd os oedd cyfraniad yn cael ei wneud. Hefyd holwyd os y cyflwynwyd cais am ganiatad i wersylla o'r tu allan i dir y Nant.
Penderfynwyd fod y Clerc i ysgrifennu at Gwmni Nant Gwrtheyrn yn cyfeirio at y cwynion o'r Gymuned a gofyn am eu hymateb.

8. **Gohebiaeth –**
8.1 **Archwilio Allannol 2016/17 –** Nododd y Clerc fod gofynion yr Archwilwyr i law.

8.2 **Archwilio Mewnol 2016/17 –** Nododd y Clerc fod gofynion yr Archwiliwr i law.

8.3 Tynwyd sylw'r Cyngor at rifyn diweddaraf 'Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru'.
8.4 Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

9. **Cyllid –**
9.1 **Cyfrifon 2016/17 –** Derbynwyd a mabwysiadwyd cyfrifon 2016/17

9.2 **Polisi prisio'r gofrestr asedau –** Gan nad oes tystiolaeth o gost adeiladu'r cysgodfannau bws yn Llithfaen penderfynwyd ar amcanbris o £5000 ar eu cyfer yn y gofrestr asedau. Mae'r amcanbris yma wedi'i seilio ar bris cysgodfan bws Pistyll yn 2008. Derbynwyd a mabwysiadwyd cofrestr asedau gyfredol y Cyngor.

9.3 **Adroddiadau/gofynion Archwilwyr –** Nid yw adroddiad BDO am 16/17 wedi dod i law eto.

9.4 T**rafodion ar y gyfriflen banc ddiweddaraf**:

Derbyniadau: £600.00 – Trosglwyddiad o'r cyfrfif cadw

Taliadau: E Griffith (Cyflog Clerc)		£160.00
√ (Costau/treuliau o ddechrau Ionawr i'r 18/3/2017)		£59.42
Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl		200.00
Un Llais Cymru		£84.00

Balans cyfrif cyfredol : £2114.31

Balans Cyfrif cadw: £2743.75

Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -

E Griffith (Cyflog Clerc)	£160.00	
√ (Costau/treuliau)	£25.00	£185.00
J D Roberts Archwiliwr 14/15- 15/16		£134.00

Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 9fed o Fai am 7:30 y.h.
(Yn dilyn Cyfarfod Blynyddol 2017/18)